



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

**Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
yng Nghymru
Trefniadau Iechyd a Diogelwch
Landlordiaid**

Trosolwg o'r Sector ac Argymhellion

Medi 2018

1. Mae'r Rheoleiddiwr yng Nghymru wedi gofyn am adroddiad sicrwydd llawn ar drefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid gan bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru

Ar 5 Mehefin 2018, gofynnodd tîm rheoleiddio Llywodraeth Cymru i bob landlord cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru gyflwyno adroddiad sicrwydd llawn ar ei drefniadau iechyd a diogelwch fel landlord, wedi'i gymeradwyo gan ei Fwrdd, gyda therfyn amser o 3 Gorffennaf 2018.

Esbonnir cynnwys disgwylidig yr adroddiad yn fanwl yn llythyr y Rheoleiddwr yn Atodiad 1. Roedd disgwyl i bob adroddiad ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â sicrwydd, gan gynnwys cywirdeb data, polisïau, gan gynnwys prif gyfrifoldebau, systemau a phrosesau ac unrhyw gynigion, ac amserlen ar gyfer gwella'r ffordd y ceir sicrwydd lle y nodwyd gwendidau.

Oherwydd pwysigrwydd y pwnc, pennwyd terfyn amser tynn ar gyfer cyflwyno adroddiadau sicrwydd. Rhaid canmol ymateb y sector i'r terfyn amser hwn, gyda phob adroddiad ond un yn dod i law erbyn y terfyn amser. Cyflwynwyd yr eithriad unigol hwnnw (cymdeithas dai fach iawn) ddeg diwrnod ar ôl y terfyn amser.

Byrddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, yn ddi-os, sy'n gyfrifol am drefniadau iechyd a diogelwch cadarn. Wrth ofyn am adroddiadau sicrwydd, nid yw Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo unrhyw ran o gyfrifoldeb Byrddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig am sicrhau trefniadau iechyd a diogelwch effeithiol gan landlordiaid o gwbl. Yn yr un modd, wrth ddadansoddi'r adroddiadau sicrwydd, nid yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo nac yn cytuno ar y ffordd y mae unrhyw sefydliad yn rheoli iechyd a diogelwch.

1.1 Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn ceisio gwella'r ffordd y maent yn ymdrin ag iechyd a diogelwch fel landlord

Mae'n amlwg bod ein cais, yn ogystal â phroffil uchel trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid ar hyn o bryd, wedi ysgogi llawer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i adolygu eu polisïau a'u prosesau iechyd a diogelwch. O ganlyniad i hyn, mae sawl landlord cymdeithasol cofrestredig wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella, gan gynnwys mesurau dilysu data newydd, archwiliadau ychwanegol ac adolygiadau mwy rheolaidd o bolisïau.

1.2 Mae trosolwg o'r materion cyfredol allweddol yn y sector o ran trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid ac argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach wedi cael eu datblygu drwy ddadansoddi'r adroddiadau sicrwydd

Rydym wedi dadansoddi pob un o'r adroddiadau ac wedi paratoi'r trosolwg hwn o'r sector. Nod yr adroddiad yw ysgogi a chefnogi gwersi i'w dysgu a dealltwriaeth drwy'r sector cyfan, gan sicrhau rhagor o welliannau yn y ffordd y mae'r sector yn rheoli trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid. Gan gadw hyn mewn cof, rydym wedi cynnwys nifer o argymhellion yn y trosolwg hwn.

1.3 Bydd y Rheoleiddiwr yn gweithio gyda'r sector er mwyn helpu i wella'r ffordd yr ymdrinnir â threfniadau iechyd a diogelwch landlordiaid

Mae'n amlwg bod lle i wella drwy'r sector cyfan. Bydd y tîm rheoleiddio yn gweithio'n agos gyda Cartrefi Cymunedol Cymru er mwyn hyrwyddo gwell sicrwydd o ran trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid a sicrwydd Byrddau yn fwy cyffredinol. Dros y misoedd sydd i ddod, bydd Rheolwyr Rheoleiddio yn trafod cwestiynau a phroblemau sy'n codi o'r adroddiadau sicrwydd â chymdeithasau tai unigol. Caiff y trafodaethau hyn eu blaenoriaethu yn ôl y lefel risg ganfyddedig ac amseriad dyfarniadau rheoleiddiol sydd yn yr arfaeth. Rydym yn disgwyl y byddwn wedi cael trafodaeth gyntaf â phob landlord cymdeithasol cofrestredig erbyn diwedd yr hydref.

2. Mae ein dadansoddiad o'r adroddiadau sicrwydd yn tynnu sylw at nifer o feysydd lle y gellir gwella

2.1. Mae angen i berchenogaeth Byrddau o drefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid fod yn gliriach

Nododd cais y Rheoleiddiwr yn glir fod angen i Fyrddau gymeradwyo adroddiadau. O'r 38 o adroddiadau a gyflwynwyd, dim ond 23 a oedd yn cynnwys tystiolaeth glir yn cadarnhau cymeradwyaeth y Bwrdd. Nid oedd unrhyw arwydd clir o gymeradwyaeth mewn 13 o'r adroddiadau ac nid oedd dau'n benodol wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd ar adeg eu cyflwyno.

Argymhelliad 1

Mae angen i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddangos yn glir drefniadau llywodraethu ardderchog a sicrwydd cadarn i'r Bwrdd am effeithiolrwydd eu trefniadau iechyd a diogelwch fel landlordiaid. Mae'n rhaid eu bod yn gallu rhoi tystiolaeth glir o berchenogaeth y Bwrdd o berfformiad iechyd a diogelwch landlordiaid.

2.2. Mae angen i drefniadau llywodraethu iechyd a diogelwch landlordiaid, strwythurau mewnol ac adroddiadau fod yn ddigon clir, yn rheolaidd, yn gynhwysfawr ac yn seiliedig ar gyngor arbenigol

O'r adroddiadau, yn aml, roedd yn anodd cael dealltwriaeth glir o strwythur pwyllgorau/grwpiau iechyd a diogelwch, y llinellau dirprwyo/adrodd cysylltiedig, amlder adroddiadau a'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPAau) a ddefnyddiwyd.

Y strwythurau hawsaf i'w deall oedd y rhai lle roedd diagram wedi'i gynnwys. Efallai fod Byrddau yn gyfarwydd â'u strwythur sefydliadol sy'n golygu nad yw'r diffyg eglurder hwn yn achosi problem o bosibl o ran cael sicrwydd. Fodd bynnag, mae eglurder ynghylch cyfrifoldebau sefydliadol yn bwysig. Mae'r ffordd y caiff trefniadau iechyd a diogelwch eu dirprwyo o fewn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn amrywio ac nid oes patrwm amlwg.

Mae sawl landlord cymdeithasol cofrestredig yn cyflogi staff neu dimau iechyd a diogelwch penodol. Mae rhai yn dirprwyo cyfrifoldeb i wahanol ddeiliaid swydd yn y sefydliad ac mae eraill yn defnyddio ymgynghorwyr iechyd a diogelwch i roi gwybodaeth arbenigol. Os bydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn defnyddio ymgynghorwyr, dylent sicrhau bod ganddynt gymwysterau priodol. Ni waeth sut y caiff unrhyw gamau gweithredu neu dasgau penodol eu dirprwyo, y Bwrdd, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch. Nododd llawer fod gan bob aelod o staff rôl i'w chwarae o ran iechyd a diogelwch, ond dim ond ychydig a drafododd ddiwylliant y sefydliad mewn perthynas ag iechyd a diogelwch. Esboniodd un fod pwyslais ar gyflogaion yn cymryd 'perchenogaeth' o iechyd a diogelwch.

Mae ein profiad yng Nghymdeithas Tai Cymuned Caerdydd (a fydd yn destun adroddiad cyhoeddus ar wersi a ddysgwyd cyn hir) yn pwysleisio pwysigrwydd strwythurau clir a chyfrifoldebau wedi'u dyrannu ar gyfer trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid er mwyn osgoi hepgor elfennau allweddol.

Argymhelliad 2

Dylai Byrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fodloni eu hunain bod eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch fel landlordiaid, eu trefniadau dirprwyo a'u strwythurau yn glir, yn addas at y diben ac yn cael eu deall drwy'r sefydliad cyfan.

2.3. Mae angen gweithredu cadarn, sy'n cynnwys defnyddio arbenigedd allanol priodol, er mwyn sicrhau sicrwydd digonol i'r bwrdd ar drefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid.

Nododd ein dadansoddiad nifer o ffyrdd o weithredu.

Achredu Allanol

Nododd pedwar landlord cymdeithasol cofrestredig (allan o 38) eu bod wedi ennill achreidiad allanol ar gyfer eu systemau iechyd a diogelwch, gyda naw arall yn defnyddio rhyw fath o ganllawiau/model cydnabyddedig i drefnu eu trefniadau iechyd a diogelwch. Y ddogfen y cyfeiriwyd amlaf ati oedd 'Managing for health and safety (HSG65)' yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Efallai fod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill yn defnyddio model sy'n bodoli eisoes, ond nid ydynt wedi nodi hyn yn eu hadroddiad.

Argymhelliad 3

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a fyddai meincnodi eu trefniadau iechyd a diogelwch presennol yn erbyn model neu ganllawiau sy'n bodoli eisoes yn eu helpu i weithredu'n fwy cadarn. Dylent hefyd ystyried ceisio achreidiad allanol ar gyfer eu systemau rheoli iechyd a diogelwch.

Dull tair llinell amddiffyn

Un thema a gododd o'r adroddiad oedd y defnydd o 'dair llinell amddiffyn' gan nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gyda 15 yn dweud eu bod yn defnyddio o leiaf elfen o'r dull hwn ar gyfer eu trefniadau sicrhau iechyd a diogelwch. Soniodd sawl un am bedair llinell amddiffyn. Dull rheoli risg ydyw, a ddefnyddir yn gyffredin bellach gan amrywiaeth o fusnesau a sefydliadau, o iechyd a diogelwch i feysydd sicrwydd busnes a rheoli risg eraill. Yn y model, caiff cyfrifoldeb am reoli risg ei rannu rhwng llinell gyntaf sy'n cynnwys staff rheng gyntaf yn cymhwysu polisïau priodol, ail linell sy'n cynnwys gweithgarwch rheoli risg a chydymffurfiaeth, a thrydedd linell sy'n cynnwys sicrwydd allanol, e.e. archwiliad mewmol.

Argymhelliad 4

Dylai Byrddau landlord cymdeithasol cofrestredig sicrhau bod eu trefniadau presennol yn ddigon cadarn i roi lefel o sicrwydd sy'n debyg i'r hyn a roddir drwy ddull tair llinell amddiffyn.

Archwilio Mewnol

Cyfeiriwyd at archwilio mewmol fel ffordd o roi sicrwydd mewn 36 o'r 38 o adroddiadau. Mae'n amlwg bod y mwyafrif helaeth o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn dibynnu ar archwilio mewmol, a ddarperir fel arfer gan drydydd parti, er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â chadernid eu trefniadau iechyd a diogelwch.

Nid oedd amllder na chwmpas yr archwiliadau hyn yn glir yn aml ac nid oedd yn glir ychwaith, o'r adroddiadau, sut y mae amllder a chwmpas archwiliadau iechyd a diogelwch yn cael eu pennu, na chan bwy. Yn yr adroddiadau hynny a eglurodd hyn, y Pwyllgor Archwilio a Risg (neu grŵp tebyg) oedd yn gyfrifol yn aml am gyfarwyddo gweithgarwch archwilio mewnol. Fel arfer, nid oedd manylion am gyfraniad y Bwrdd at y broses hon.

Roedd amllder archwiliadau yn amrywio'n fawr. Nododd un landlord cymdeithasol cofrestredig ei fod yn cynnal archwiliadau o gydymffurfiaeth ym mhob maes risg i'r landlord bob chwe mis. Yn achos landlord cymdeithasol cofrestredig arall, dim ond un archwiliad yn ymdrin ag un maes penodol roedd yn ei gwblhau bob blwyddyn. Mewn llawer o'r adroddiadau, ni ellid cadarnhau amllder na chwmpas. Dywedodd nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu bod wedi cynyddu nifer yr archwiliadau iechyd a diogelwch a gynhelir, neu y byddent yn gwneud hynny yn fuan.

Argymhelliad 5

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a yw amllder, cwmpas a chadernid eu harchwiliadau mewnol o'u trefniadau iechyd a diogelwch yn rhoi sicrwydd digonol iddynt.

2.4. Cywirdeb Data - os nad yw'r data yn gywir, sut rydych yn gwybod eich bod yn gwybod beth rydych yn meddwl eich bod yn gwybod?

Cyfeiriwyd at gywirdeb data a/neu ddilysu data mewn 28 o'r 38 o adroddiadau.

Mae gan rai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig systemau ar waith eisoes i sicrhau cywirdeb eu data. Disgrifiodd un landlord cymdeithasol cofrestredig archwiliad mewnol blynyddol o ddata a dynnwyd o'i system Rheoli Tai, yn cwmpasu ddiogelwch nwy, asesiadau risg tân, rheoli asbestos a chlefyd y lleng filwyr, drwy ddefnyddio meddalwedd arbenigol. Dywedodd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill eu bod wedi dod o hyd i ddiffygion yn eu data/cofnodion a'u bod bellach yn gweithio tuag at ddatrys y broblem. Er enghraifft, dywedodd un ei fod wedi mynd ati i ddatblygu polisi ynglŷn â chywirdeb data a dilysu data. Dywedodd un arall ei fod yn bwriadu defnyddio 'ffynonellau allanol' i ddilysu data yn y dyfodol.

Roedd landlord cymdeithasol cofrestredig arall wedi cynnal archwiliad o gywirdeb data yn ddiweddar, ar ôl awgrym gan ei archwilwyr mewnol. Roedd hwn wedi nodi gwallau a ddeilliodd o ddiffyg integreiddio rhwng systemau TG, gan arwain at ddibyniaeth ar gyfathrebu rhwng adrannau a gwall dynol wrth fewnbynnu data.

O'r 28 o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gyfeiriodd at gywirdeb data, nid oedd llawer yn dangos dealltwriaeth glir o'r ffordd roeddent yn cael sicrwydd ynglŷn â chywirdeb data. Roedd rhai, yn syml, yn honni bod ganddynt hyder yn eu data.

Mater arall a drafodwyd mewn sawl adroddiad oedd y defnydd o daenlenni i storio data. Dywedodd nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu bod yn symud i ffwrdd o'r defnydd hanesyddol o daenlenni tuag at systemau mwy diogel a soniodd rhai am y risg weithredol uchel sy'n gysylltiedig â sicrhau cywirdeb data ar daenlenni.

Mae ein profiad yng Nghymdeithas Tai Cymuned Caerdydd yn amlygu potensial data anghywir i danseilio trefniadau iechyd a diogelwch landlord cymdeithasol cofrestredig yn llwyr, gan arwain at roi tenantiaid mewn perygl o bosibl. Os nad yw'r data a ddefnyddir yn gywir, gall y trefniadau mwyaf cadarn fethu ac maent yn methu.

Mater arall a amlygwyd gan ein profiad yng Nghymdeithas Tai Cymuned Caerdydd hefyd yw'r mater cysylltiedig o ran p'un a yw aelodau'r Bwrdd yn deall goblygiadau posibl y data a ddarperir. Mewn sampl brofi, efallai fod methiant dau allan o bum sampl yn ymddangos yn arwynebol ei fod yn rhoi sicrwydd digonol, yn enwedig pan roddwyd esboniadau a oedd yn ymddangos yn rhesymol dros y ddau fethiant hynny. Fodd bynnag, mae allosod cyfradd methu o 40% i'r stoc dai gyfan yn dangos yn glir bod problem y mae angen ei hystyried o ddifrif eto.

Argymhelliad 6

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sicrhau eu hunain fod cywirdeb eu data/eu prosesau dilysu yn ddigon cadarn ac yn addas at y diben.

Argymhelliad 7

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a oes angen iddynt wneud rhagor er mwyn sicrhau cywirdeb data, e.e. drwy archwiliadau rheolaidd o gywirdeb data.

Argymhelliad 8

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried cael gwared ar systemau storio data/cydymffurfiaeth hawdd eu llygru ac a all arwain at ddata anghywir, er enghraifft taenlenni, pan fo cyfle.

Argymhelliad 9

Dylai Byrddau landlord cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a ydynt wir yn deall goblygiadau'r data y maent yn eu hystyried.

2.5. Mae diwylliant iechyd a diogelwch cadarn yn hanfodol

Fel y nodir uchod, ychydig iawn o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a gyfeiriodd at ddiwylliant iechyd a diogelwch yn eu hadroddiadau. Mae diwylliant sefydliad yn dylanwadu ar ymddygiad cyflogeion a gall gael dylanwad mawr ar ganlyniadau diogelwch. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn awgrymu bod llwyddiant fel arfer yn deillio o arweinyddiaeth dda, trefniadau da i gynnwys gweithwyr a chyfathrebu da. Y dylanwadau mwyaf ar ddiwylliant diogelwch, ym marn yr Awdurdod, yw:

- ymrwymiad ac arddull rheolwyr;
- cynnwys cyflogeion;
- hyfforddiant a chymhwysedd;
- cyfathrebu;
- cydymffurfiaeth â gweithdrefnau;
- dysgu sefydliadol.

Mae ein profiad yng Nghymdeithas Dai Cymuned Caerdydd yn pwysleisio pa mor hanfodol yw diwylliant iechyd a diogelwch cadarn sy'n treiddio drwy'r sefydliad cyfan, gyda phawb yn ysgwyddo cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch, er mwyn osgoi sefyllfa lle mae trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid yn cael eu hystyried yn "waith rhywun arall" neu'n "rhywbeth ychwanegol". Mae angen diwylliant iechyd a diogelwch priodol er mwyn sicrhau bod ymateb cyflym a phriodol i broblemau sy'n codi, ac nad ydynt yn cael eu hanwybyddu.

Argymhelliad 10

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a oes gan eu sefydliad ddiwylliant iechyd a diogelwch cadarn, priodol.

Mae amllder a chwmpas adroddiadau i'r gwahanol grwpiau (e.e. Uwch Dîm Rheoli, Tîm Arweinyddiaeth, Pwyllgor Archwilio a Risg, Pwyllgor Craffu, Tîm Iechyd a Diogelwch, Pwyllgor Iechyd a Diogelwch) a ddefnyddir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gwahanol yn amrywio'n fawr. Adroddiadau misol neu chwarterol oedd fwyaf cyffredin ymhlith y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig hynny a nododd amllder. Ni fanylwyd ar gwmpas yr adroddiadau hyn fel arfer.

O ran pa mor aml y mae Byrddau yn cael adroddiadau iechyd a diogelwch, nododd yr adroddiadau eu bod yn amrywio o adroddiadau misol i rai blynyddol. Mae'n amlwg, mewn rhai sefydliadau, fod aelodau'r Bwrdd yn aelodau o grwpiau eraill o fewn y strwythur sy'n cael adroddiadau'n fwy aml, yn benodol y Pwyllgor Archwilio a Risg (neu bwyllgor tebyg). Efallai fod y trefniant hwn yn rhoi digon o sicrwydd i'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd, ond byddai'n ddoeth ystyried p'un a yw'r trefniadau presennol yn ddigonol. Yn aml, nid oedd yn glir yn yr adroddiad pa fanylion sy'n cael eu rhoi i'r Bwrdd. Ymddengys mai cyfyngedig yw'r wybodaeth a roddir i rai, er enghraifft, dim ond data ar dystysgrifau nwy heb eu rhoi ac achosion difrifol o dorri rheolau iechyd a diogelwch. Dywedodd nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu bod wrthi'n ystyried p'un a oedd y DPAAu yn ddigonol a'u bod yn ystyried

datblygu DPAAu newydd ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Mae un Bwrdd sydd ond yn cael data perfformiad ar wasanaethu nwy ac asesiadau risg tân ar hyn o bryd, yn ehangu ar hyn er mwyn cynnwys data ar larymau mwg, profion trydanol, rheoli asbestos, clefyd y lleng filwyr a gwasanaethu lifftiau.

Mae ein profiad yng Nghymdeithas Dai Cymuned Caerdydd yn awgrymu bod peryglon hefyd yn gysylltiedig â chael gormod o wybodaeth am drefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid oherwydd y perygl na ellir canfod yr eitemau hollbwysig o'r llwyth o ddata a gyflwynir – methu â gweld y pethau pwysig.

Argymhelliad 11

Dylai Byrddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a yw amllder a chwmpas adroddiadau ar berfformiad iechyd a diogelwch landlordiaid yn briodol er mwyn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen iddynt.

2.6. Mae'n rhaid i bolisïau a systemau iechyd a diogelwch fod yn gadarn, yn berthnasol ac yn gyfredol

Er bod pob adroddiad yn cynnwys rhyw gyfeiriad at bolisi iechyd a diogelwch neu system rheoli, roedd y manylion a'r eglurder a roddwyd yn amrywio'n fawr. Roedd hyn yn amrywio o gyfeirio at bolisi ond heb nodi pryd y cafodd ei adolygu ddiwethaf, nac erbyn pryd y dylid ei adolygu, i gyfres o bolisïau a oedd yn cwmpasu pob un o risgiau iechyd a diogelwch y landlord gyda'r holl ddyddiadau perthnasol wedi'u cynnwys.

Cymysg yw'r arfer o ran pa mor aml y caiff polisïau eu hadolygu. Roedd hyn yn amrywio o beidio â rhoi unrhyw wybodaeth, i adolygu pob polisi bob blwyddyn drwy'r Bwrdd. Mae nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn adolygu polisïau ar sail cylch o ddwy neu dair blynedd, ond roedd tystiolaeth nad oedd rhai polisïau wedi cael eu hadolygu am o leaf bedair blynedd. Nododd nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig nad oedd ganddynt bolisïau mewn rhai meysydd a bod yr ymarfer hwn wedi'u hysgogi i ddatblygu polisïau perthnasol.

Nododd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu bod yn defnyddio rhyw fath o system/dull rheoli risg, gydag iechyd a diogelwch fel arfer yn rhan ohoni/ohono. Yn aml, nid oedd yn glir o'r adroddiadau p'un a oedd y system rheoli risg yn mynd i'r afael â threfniadau iechyd a diogelwch landlordiaid yn benodol. Dywedodd un landlord cymdeithasol cofrestredig y byddai'n diweddarau ei fap risg i gynnwys trefniadau iechyd a diogelwch y landlord.

Mae'n anodd deall pam na fyddai trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid yn rhan amlwg o fapio a rheoli risg pob landlord cymdeithasol cofrestredig – yn enwedig yn yr amgylchedd presennol.

Argymhelliad 12

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a yw'r polisiau sydd ar waith ganddynt yn cwmpasu pob maes yn nhrefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid yn ddigonol, a pha mor aml y cânt eu hadolygu.

Argymhelliad 13

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sicrhau bod eu system rheoli risg yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'u chyfrifoldebau iechyd a diogelwch fel landlordiaid yn ddigonol.

2.7. Adroddiadau iechyd a diogelwch landlordiaid – mae'n rhaid i'w hyd a'u perthnasedd helpu'r Bwrdd i ddeall materion allweddol a mynd i'r afael â nhw

Roedd maint, arddull a ffocws yr adroddiadau a gyflwynwyd yn amrywio'n fawr. Dwy dudalen oedd hyd yr adroddiad byrraf, gyda'r hwyaf yn 150 o dudalennau. Roedd llawer o'r adroddiadau hwy yn cynnwys nifer o atodiadau.

Roedd perthnasedd y deunydd a gyflwynwyd hefyd yn amrywio. Roedd y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar roi sicrwydd o ran trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid. Fodd bynnag, roedd nifer yn trafod iechyd a diogelwch mewn cyd-destun llawer ehangach, er enghraifft polisiau ar gyfer gweithio'n unigol a materion staffio eraill. Mewn rhai adroddiadau, roedd hyn yn ei gwneud yn anodd nodi'r deunydd a oedd yn berthnasol i drefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid.

Mae adroddiadau rhy hir a rhy gymhleth yn codi cwestiwn ynghylch pa mor hawdd y gallai rhai Byrddau nodi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i roi sicrwydd ynglŷn â'u cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch fel landlordiaid. Mae hefyd yn codi'r cwestiwn p'un a oedd pob landlord cymdeithasol cofrestredig wedi sicrhau ei fod yn llwyr ddeall cais y Rheoleiddiwr.

Argymhelliad 14

Mae angen i Fyrddau ystyried p'un a yw hyd, cwmpas ac arddull adroddiadau ar iechyd a diogelwch yn eu helpu i ganolbwyntio ar faterion allweddol trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid.

2.8. Dylai tenantiaid gael eu cynnwys yn nhrefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid

O ddadansoddi'r adroddiadau sicrwydd, nid yw'n amlwg i ba raddau y mae tenantiaid yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid. Nododd chwech o'r 38 o adroddiadau lwybr clir i denantiaid gyfrannu at drefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid. Roedd hyn fel arfer drwy banel neu fforymau i denantiaid. Nid oedd ein cais yn gofyn yn benodol am fanylion ymgysylltu â thenantiaid, felly mae'n bosibl bod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eraill eisoes yn cynnwys tenantiaid yn eu trefniadau. Yn yr amgylchedd presennol, mae gan denantiaid rôl bwysig. Dylai

pob landlord cymdeithasol cofrestredig ystyried sut i gynnwys tenantiaid os nad oes trefniadau priodol eisoes ar waith.

Argymhelliad 15

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ganddynt i annog tenantiaid i ymgysylltu â threfniadau iechyd a diogelwch landlordiaid a dylanwadu arnynt.

3. Mae gwelliannau ar droed gan lawer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Bydd y rheoleiddiwr yn gweithio gyda'r sector i gefnogi gwelliant parhaus

Mae ein cais am adroddiadau sicrwydd eisoes wedi ysgogi nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i adolygu a/neu newid trefniadau eu systemau iechyd a diogelwch fel landlordiaid.

Mae ein hargymhellion yn rhoi cyfle arall i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'u Byrddau ystyried p'un a yw ein trefniadau presennol yn ddigonol a dysgu o arfer cyfredol yn y sector. Mae'n rhaid bod Byrddau yn gallu rhoi sicrwydd bod eu system adrodd iechyd a diogelwch yn gywir ac yn gadarn, yn gallu nodi diffygion a chyflwyno gwelliannau'n gyflym – ac yn bwysicaf oll, sicrhau diogelwch tenantiaid a defnyddwyr gwasanaethau eraill.

Bydd ein Rheolwyr Rheoleiddio yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig unigol er mwyn asesu ansawdd sicrwydd eu Bwrdd o ran trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid, gan nodi lle mae angen mwy o sicrwydd/sicrwydd cadarnach, lle y bo hynny'n angenrheidiol.

Atodiad 1 – Llythyr gan y Rheoleiddiwr



Carol Kay
Pennaeth Strategaeth Rheoleiddio
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus.
Llywodraeth Cymru
Ffôn 0300 062 8172/07875 707319
E-bost : carol.kay@gov.wales

At
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Aelodau o'r Grŵp Cynghori ar Reoleiddio

Yng nghyd-destun y digwyddiadau diweddar, gan gynnwys achos o ymyriad rheoleiddiol ac, wrth gwrs, Drychineb Grenfell, mae'n hollbwysig bod Byrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn hollol hyderus ynglŷn â'r wybodaeth a dderbyniant mewn perthynas â'u cyfrifoldebau am drefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r ffordd y caiff eu rhwymedigaethau eu cyflawni.

Mae Canllawiau i Berfformiad Safon 2 - *Cynnwys tenantiaid mewn ffordd effeithiol a phriodol a gwasanaethau landlord o safon uchel ac sy'n gwella* - yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid fodloni pob gofyniad statudol cymwys sy'n darparu ar gyfer iechyd a diogelwch deiliaid yn y cartref. I egluro, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Fyrddau fod yn gwbl ymwybodol o'u holl gyfrifoldebau, dyletswyddau a rhwymedigaethau iechyd a diogelwch, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddiogelwch tân, nwy a thrydan a gofynion profi.

Yn y cyhoeddiad Global Accounts, Challenges, Risks and Regulatory Expectations, rydym yn nodi disgwyliadau rheoleiddiol clir bod yn rhaid i Fyrddau roi sicrwydd bod ei system adrodd iechyd a Diogelwch yn gywir ac yn gadarn, ei bod yn gallu nodi methiannau ond, yn bwysicach na hynny, wneud gwelliannau ar waith. Bydd y rheoleiddiwr yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau nodi eu methodoleg i gael sicrwydd ar gyfer systemau Rheoli Iechyd a Diogelwch a pherfformiad. Gallai hyn gynnwys archwiliadau neu adolygiadau gan gymheiriaid o bryd i'w gilydd, er enghraifft, ond dylent gael eu cynnal o leiaf bob dwy flynedd.

Fel arfer, byddem yn ymdrin â'r gofyniad hwn fel rhan o'n goruchwyliaeth reoleiddio arferol. Fodd bynnag, cafwyd achosion lle rydym wedi gweld nad yw sicrwydd ynglŷn â'r materion hollbwysig hyn yn ddibynadwy. Am y rheswm hwnnw, rwy'n ei gwneud

yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol cofrestredig gyflwyno adroddiad sicrwydd llawn ar drefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid, a gymeradwyir gan y Bwrdd, erbyn 3 Gorffennaf 2018 fan bellaf. Mae'n rhaid i'r adroddiad ymateb i'r disgwyliadau rheoleiddiol a nodir uchod a dylai gynnwys pob mater sy'n ymwneud â sicrwydd, gan gynnwys cywirdeb data, polisiau, gan gynnwys prif gyfrifoldebau, systemau a phrosesau ac unrhyw gynigion, ac amserlen ar gyfer gwella'r ffordd y ceir sicrwydd lle y nodwyd gwendidau.

Sylweddolaf fod hwn yn gais anarferol o ran ein goruchwyliaeth reoleiddiol arferol ond rwy'n siwr y byddwch yn deall bod yr amgylchiadau yn cyfiawnhau'r dull gweithredu hwn, a drafodwyd yn llawn gyda Cartrefi Cymunedol Cymru.

Pan ddaw'r adroddiadau i law, bwriadaf gyhoeddi adroddiad cryno trosolwg o'r sector yn ogystal â chomisiynu trafodaethau adborth unigol ag unrhyw Fwrdd na all roi'r lefel o sicrwydd a ddisgwylir. Hoffwn hefyd gadarnhau na fydd Llywodraeth Cymru yn petruso rhag cymryd camau rheoleiddiol ffurfiol eraill pe dangosid bod Iechyd a Diogelwch tenantiaid ac eraill yn cael eu peryglu gan drefniadau rheoli annigonol.



Carol Kay
Pennaeth Strategaeth Rheoleiddio

Atodiad 2 - Argymhellion Argymhelliad 1

Mae angen i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddangos yn glir drefniadau llywodraethu ardderchog a sicrwydd cadarn i'r Bwrdd am effeithiolrwydd eu trefniadau iechyd a diogelwch fel landlordiaid. Mae'n rhaid eu bod yn gallu rhoi tystiolaeth glir o berchenogaeth y Bwrdd o berfformiad iechyd a diogelwch landlordiaid.

Argymhelliad 2

Dylai Byrddau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fodloni eu hunain bod eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch fel landlordiaid, eu trefniadau dirprwyo a'u strwythurau yn glir, yn addas at y diben ac yn cael eu deall drwy'r sefydliad cyfan

Argymhelliad 3

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a fyddai meincnodi eu trefniadau iechyd a diogelwch presennol yn erbyn model neu ganllawiau sy'n bodoli eisoes yn eu helpu i weithredu'n fwy cadarn. Dylent hefyd ystyried ceisio achrediad allanol ar gyfer eu systemau rheoli iechyd a diogelwch.

Argymhelliad 4

Dylai Byrddau landlord cymdeithasol cofrestredig sicrhau bod eu trefniadau presennol yn ddigon cadarn i roi lefel o sicrwydd sy'n debyg i'r hyn a roddir drwy ddull tair llinell amddiffyn.

Argymhelliad 5

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a yw amllder, cwmpas a chadernid eu harchwiliadau mewnol o'u trefniadau iechyd a diogelwch yn rhoi sicrwydd digonol iddynt

Argymhelliad 6

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sicrhau eu hunain fod cywirdeb eu data/eu prosesau dilysu yn ddigon cadarn ac yn addas at y diben.

Argymhelliad 7

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a oes angen iddynt wneud rhagor er mwyn sicrhau cywirdeb data, e.e. drwy archwiliadau rheolaidd o gywirdeb data.

Argymhelliad 8

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried cael gwared ar systemau storio data/cydymffurfiaeth hawdd eu llygru ac a all arwain at ddata anghywir, er enghraifft taenlenni, pan fo cyfle

Argymhelliad 9

Dylai Byrddau landlord cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a ydynt wir yn deall goblygiadau'r data y maent yn eu hystyried.

Argymhelliad 10

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a oes gan eu sefydliad ddiwylliant iechyd a diogelwch cadarn, priodol.

Argymhelliad 11

Dylai Byrddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a yw amlder a chwmpas adroddiadau ar berfformiad iechyd a diogelwch landlordiaid yn briodol er mwyn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen iddynt.

Argymhelliad 12

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ystyried p'un a yw'r polisïau sydd ar waith ganddynt yn cwmpasu pob maes yn nhrefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid yn ddigonol, a pha mor aml y cânt eu hadolygu.

Argymhelliad 13

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sicrhau bod eu system rheoli risg yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'u chyfrifoldebau iechyd a diogelwch fel landlordiaid yn ddigonol.

Argymhelliad 14

Mae angen i Fyrddau ystyried p'un a yw hyd, cwmpas ac arddull adroddiadau ar iechyd a diogelwch yn eu helpu i ganolbwyntio ar faterion allweddol trefniadau iechyd a diogelwch landlordiaid.

Argymhelliad 15

Dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ganddynt i annog tenantiaid i ymgysylltu â threfniadau iechyd a diogelwch landlordiaid a dylanwadu arnynt.